


Ddiwrnod Chwarae



Rydym yn gwneud
sŵn mawr dros
Ddiwrnod Chwarae
2PM Dydd Mercher
5 Awst 2020

hawi plant i chwarae

Chwarae yw'r ffordd fwyaf naturiol a phlesurus i blant a phlant yn eu harddegau gadw'n iach a bod yn hapus.



Mae pwysigrwydd chwarae'n cael ei gydnabod o amgylch y byd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar

Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r Confensiwn yn rhestr o 42 o hawliau sydd gan bob plentyn a phlentyn yn ei arddegau, ar draws y byd i gyd, waeth pwy ydyn nhw, ble y maen nhw'n byw neu beth y maen nhw'n credu ynddo.

Mae'r hawl i chwarae'n cael ei bwysleisio yn Erthygl 31 o'r Confensiwn. Mae Erthygl 31 o'r Confensiwn yn siarad am hawl pob plentyn i chwarae.

Mae chwarae'n hawl gan blentyn ble bynnag y mae – adref, yn yr ysgol ac mewn lleoliadau gofal, ac yn eu cymdogaethau. Mae gan oedolion rôl bwysig i'w chwarae. Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod gan ein plant le, amser a chwmni plant eraill i chwarae.

Bydd plant yn cael y gorau o'u chwarae pan maen nhw'n ei reoli – pan fyddan nhw'n dewis beth i'w chwarae, gyda phwy i chwarae a beth yw'r rheolau. Pan fydd plant yn chwarae fel hyn, mae'r buddiannau corfforol, emosiynol, cymdeithasol, dysgu a lles yn aruthrol. Yn bwysicach fyth, i'r plant eu hunain, chwarae yw un o elfennau pwysicaf eu bywydau. Maen nhw'n gwerthfawrogi ac maen nhw angen cael amser, rhyddid, manau da i chwarae ac oedolion cefnogol sy'n eiriol dros chwarae ar eu rhan.

Mae plant yn dweud wrthym eu bod eisiau mwy o gyfleoedd i chwarae'r tu allan gyda'u ffrindiau. Mae chwarae'n rhan allweddol o blentyndod iach a hapus. Fel oedolion, mae cyfrifoldeb arnom i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.

Diwrnod Chwarae

Diwrnod Chwarae yw'r diwrnod cenedlaethol ar gyfer chwarae yn y DU. Mae'n dathliad blynyddol o hawl pob plentyn i chwarae. Eleni, fe'i cynhelir ar Ddydd Mercher 5 Awst.

Felly, beth am liwio'r logo Diwrnod Chwarae ar gefn y dudalen a'i osod yn y ffenest i arddangos eich cefnogaeth i hawl pob plentyn i chwarae!

Dysgwch fwy am Ddiwrnod Chwarae ar: www.playday.org.uk